



Llangrannog

## **Urdd Gobaith Cymru Disgrifiad Swydd**

|                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|-----------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Teitl y swydd:</b>       | Staff Haf 2019                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| <b>Yn atebol i:</b>         | Rheolwr Gofal Cwsmer a thrwyddo ef i'r Cyfarwyddwr.                                                                                                                                                                                                                                                         |
| <b>Cyflog:</b>              | Graddfa 1 neu 2 yn ddibynnol ar gyfrifoldeb, profiad a chymhwyster<br>£15,0470 hyd £16,009 (Pro Rata)<br>Penodir ar bwynt 1.6 neu 2.4 oni bai fod profiad/cymwysterau arbennig yn denu un pwynt ychwanegol.                                                                                                 |
| <b>Hyd y cytundeb:</b>      | 4 mis (29 Ebrill tan 31 Awst 2019)                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| <b>Oriau gwaith:</b>        | <ul style="list-style-type: none"><li>• 35 awr yr wythnos</li><li>• Golyga dyletswyddau'r swydd hon y bydd rhaid gweithio bob yn ail benwythnos ac ar Wyliau'r Banc. Bydd hawl i 2 ddiwrnod i ffwrdd yn ystod yr wythnos ar ôl gweithio penwythnos a 2 ddiwrnod "in lieu" am weithio Gŵyl y Banc.</li></ul> |
| <b>Lleoliad:</b>            | Gwersyll yr Urdd, Llangrannog                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| <b>Gwyliau blynyddol:</b>   | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol (pro rata) ac wyth niwrnod wyliau cyhoeddus (pro rata)- y cyfnodau i'w pennu mewn ymgynghoriad ar Reolwr Cwsmer<br>Disgwylir i Staff Haf ddefnyddio mwyafrif o Wyliau rhwng 27 Gorffennaf a 12 Awst 2019                                                            |
| <b>Cyfnod prawf:</b>        | Bydd cyfnod prawf o 3 mis.                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| <b>Gwiriad DBS:</b>         | Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (DBS)                                                                                                                                                                                                            |
| <b>Archwiliad meddygol:</b> | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir mynd o dan archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol.                                                                                                                                                                                                     |

## **Diben y swydd**

Cyfle ardderchog i fyfyrwr neu berson ifanc ennill profiad a chyflog yn y byd addysg awyr agored a hamdden. Fydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus cynorthwyo'r Gwersyll a'r Adran Weithgareddau i ddarparu gwasanaeth cyflawn a phroffesiynol fel y gall y cwsmeriaid fwynhau amrediad eang o weithgareddau cyffrous.

## **Dyletswyddau, Gofynion a Hyfforddiant**

1. Mynychu wythnosau hyfforddiant sydd wedi trefnu dros Wyliau Pasg (15 i 18 Ebrill a 23 i 26 Ebrill 2019) Disgwylir i ymgeiswyr llwyddiannus gymryd rhan yn yr holl hyfforddiant a gynigir. Anelir at dystysgrifau cenedlaethol a hyfforddiant canlynol:
  - Cwrs Arweinydd Chwaraeon
  - Cwrs Diogelwch Plant
  - Cwrs Cymorth Cyntaf
  - Cwrs Achub Bywyd Pwll Nofio
  - Hyfforddiant mewnol ar holl weithgareddau amrywiol y gwersyll gan gynnwys y wal ddringo, cwrs rhaffau uchel, saethyddiaeth, sgïo, adeiladu tîm, datrys problemau cyfeiriannu, trampolîn, merlota, ceirt modur, gwibgartio a gweithgareddau nos. Gall yr hyfforddiant yma arwain i gymwysterau allanol ychwanegol.
2. Disgwylir i'r Staff Haf ymgymryd â'r rota staff y Gwersyll sy'n golygu bod ar ddyletswydd ar benwythnosau ac oriau hwyr ac anghymdeithasol. Fe roddir amser ychwanegol i ffwrdd am hyn.
3. Disgwylir i Staff Haf cynorthwyo i rediad Gwersylloedd Preswyl y Gwersyll yn ystod y cyfnod yma gan gynnwys aros yn y Gwersyll.
  - Cwrs Gwyllgrefft: 29 - 31 Mai
  - Cwrs A: 10 – 14 Mehefin
  - Cwrs B: 24 – 28 Mehefin
  - Cwrs Joio Penwythnos Hir: 19 - 22 Orffennaf
  - Cwrs Joio Wythnos 22 - 26 Orffennaf
4. Mae llawer o ddyletswyddau cyffredinol y Gwersyll yn disgyn i ran aelodau'r Adran Weithgareddau. Bydd y rhain yn cynnwys glanhau a chynnal a chadw gwahanol ardaloedd ac offer o fewn y Gwersyll, llenwi peiriannau bwyd a diod, a rhoi cymorth i adrannau eraill y Gwersyll yn ôl y galw.

5. Oherwydd natur y Gwersyll, fe fydd rhaid i'r ymgeiswyr ymateb i alwadau a gofynion amrywiol o dro i dro.
6. Disgwylir i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn o leiaf 18 mlwydd oed neu'n hŷn , yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda diddordeb mewn plant a phobl ifanc, ac yn meddu ar bersonoliaeth gyfeillgar a brwdfrydig.

Os am sgwrs anffurfiol, cysylltwch ag Iestyn Evans, Rheolwr Gofal Cwsmer, Gwersyll Llangrannog ar 01239 652140

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd, **Dydd Gwener 8 Mawrth 2019**

Cyfweliadau: **Wythnos 18 Mawrth 2019**

Dylai ffurflenni cais wedi eu cwblhau cael eu dychwelyd at e-bost [lestyn@urdd.org](mailto:lestyn@urdd.org) neu yn y post i:

**Preifat a Chyfrinachol**

Iestyn Evans  
Gwersyll yr Urdd  
Llangrannog  
Llandysul  
Ceredigion  
SA44 6AE